

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin
Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl ar-lein hwn yn rhoi'r sail fathemategol i fyfyrwyr ar gyfer dulliau ystadegol yn gyffredinol ac ar gyfer modiwlau ystadegol eraill Y Brifysgol Agored yn benodol. Bydd yn rhoi sylfaen gadarn iddynt mewn ystadegau mathemategol, ynghyd â sgiliau cyffredinol. Byddant yn astudio damcaniaeth dosbarthu, gan arwain at ddamcaniaeth awgrymiadau ystadegol a ddatblygwyd o dan y dulliau gweithredu cyffredin a Bayesaidd. Yn yr achos cyffredin, byddant yn canolbwyntio ar amcangyfrif uchafswm tebygolrwydd yn benodol. Bydd myfyrwyr hefyd yn archwilio datblygiad y syniadau hyn yng nghyd-destun modelu llinol (atchweliad ac estyniadau). Cyn iddynt ddechrau'r modiwl, dylent ddeall syniadau ystadegol sylfaenol a bod yn rhesymol gymwys mewn calcwlws, algebra a matricesau. Bydd angen ychydig bach o gyswllt wyneb yn wyneb ar gyfer y modiwl hwn.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu'r dulliau gweithredu cyffredin a Bayesaidd i awgrymiadau ystadegol.
- y gallu a'r parodrwydd i ddarparu tiwtorialau wyneb yn wyneb ac/neu ar-lein, gan ddefnyddio deunyddiau y gall fod angen i chi eu paratoi, sy'n briodol ar gyfer y modiwl a'r myfyrwyr
- cyfarpar a sgiliau TG priodol
- y gallu i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - E-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill yn anghydamseredig
 - systemau tiwtorialau ar-lein ar gyfer marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig ar ffurf PDF ar y sgrin.

Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA ar-lein. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu yn datblygu dros gylch oes y modiwl a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o diwtora un o fodiwlau ystadegol Y Brifysgol Agored
- Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o ganllawiau ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	6
Dull cyflwyno aseiniadau:	3
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

